

FFURFLEN RHW31

HYSBYSIAD O FWRIAD CYD-DDEILIAD CONTRACT I WNEUD CAIS AM ORCHYMYN SY'N TERFYNU HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU CYD-DDEILIAD CONTRACT ARALL OHERWYDD ANFEDDIANNAETH

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan gyd-ddeiliad contract ("cyd-ddeiliad contract A") i roi hysbysiad i gyd-ddeiliad contract arall ("cyd-ddeiliad contract B") o dan adran 227(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") fod cyd-ddeiliad contract A yn bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn i ddod â hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract B o dan y contract meddiannaeth i ben am mai un o delerau'r contract meddiannaeth yw bod rhaid i'r cyd-ddeiliad contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref a bod cyd-ddeiliad contract A yn credu nad yw cyd-ddeiliad contract B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu.

Rhan A: Cyd-ddeiliad Contract A	Rhan B: Cyd-ddeiliad Contract B <i>Nad yw Cyd-ddeiliad Contract A yn credu ei fod yn meddiannu'r annedd ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu</i>
Enw:	Enw: Cyfeiriad (os yw'n hysbys):

Rhan C: Cyd-ddeiliad Contract Arall neu Gyd-ddeiliaid Contract Eraill	Rhan D: Landlord
Enw(au) (os yw'n gymwys): <i>Rhaid i gyd-ddeiliad contract A roi copi o'r hysbysiad hwn i bob un o'r cyd-ddeiliaid contract eraill.</i>	Enw: Cyfeiriad: <i>Rhaid i gyd-ddeiliad contract A roi copi o'r hysbysiad hwn i'r landlord.</i>

Rhan E: Annedd
Cyfeiriad:

Rhan F: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Terfynu Hawliau a Rhwymedigaethau Cyd-ddeiliad Contract B o dan y Contract Meddiannaeth
Mae'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn credu nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd uchod ac nad yw'n bwriadu ei meddiannu fel ei unig gartref neu ei brif gartref. Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu'n bwriadu ei meddiannu, rhaid iddo hysbysu'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn ysgrifenedig cyn diwedd y cyfnod rhybuddio ar [dyddiad]

Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i'r deiliad contract.

Rhan F: Hysbysiad o Fwriad i Wneud Cais am Orchymyn sy'n Terfynu Hawliau a Rhwymedigaethau Cyd-ddeiliad Contract B o dan y Contract Meddiannaeth (parhad)

Yn ystod y cyfnod rhybuddio, bydd y cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A yn gwneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w fodloni ei hun nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu.

Os yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A wedi ei fodloni ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio nad yw'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B yn meddiannu'r annedd neu nad yw'n bwriadu ei meddiannu, caiff y cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan A wneud cais i'r llys am orchymyn yn terfynu hawliau a rhwymedigaethau'r cyd-ddeiliad contract a enwir yn Rhan B o dan y contract meddiannaeth.

Rhan G: Llofnod

Llofnodwyd gan gyd-ddeiliad contract A:

Dyddiad:

.....

.....